Cymunedau a Grwpiau Lleol

Darganfod

Lle i ddarganfod yw Casgliad y Werin Cymru – cronfa o ddeunydd yn ymwneud â hanes lleol a threftadaeth. Mae hefyd yn arf i chi rannu eich straeon eich hun, a straeon eich cymuned.

Glowyr yn aros i fynd i gyfarfod mawr yn yr Empire Theatre, Tonypandy, Tachwedd 1910, yn ystod streic y Cambrian Combine – hawlfraint Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Parti Jiwbilî Arian ym Mhenparcau, 1977 – hawlfraint Ann Duggan

Cyfrannu

Canolfan ar-lein yw Casgliad y Werin Cymru lle gallwch chi rannu straeon ac atgofion, gan gyfoethogi ein darlun o Cymru a chadw rhyfeddodau'r gorffennol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'n hawdd cyfrannu drwy greu cyfrif ac uwchlwytho eitem. Angen cymorth? Mae gwybodaeth ar sut i ddefnyddio pob rhan o'r wefan yn y Ganolfan Gymorth.

Bydd profion hawlfraint a gwarchod data yn cael eu cynnal ar unrhyw gynnwys gaiff ei uwchlwytho i Gasgliad y Werin Cymru er mwyn sicrhau bod y wefan yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth am Gymru.

Darperir sesiynau hyfforddi am ddim i grwpiau cymunedol ar ddatblygu cynnwys digidol.

Cysylltwch â casgliadywerin@llgc.org.uk neu ffoniwch (01970) 632 500 am ragor o fanylion.

Parti stryd ym Mhenparcau, Aberystwyth i ddathlu priodas frenhinol y Tywysog Andrew a Sarah Ferguson – hawlfraint Ann Duggan

Llansawel yn sych, 6 Hydref 1959 – hawlfraint Colin Hayward

Rhannu

Mae Casgliad y Werin Cymru yn galluogi cymunedau i rannu straeon, atgofion a gwrthrychau. Mae'n annog pobl i ymwneud â'r gorffennol ac i gyfrannu eu straeon er mwyn creu etifeddiaeth gyfrannol.